



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu drafft (Rhifyn 3)

Mawrth 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) rhwng 7 Mehefin a 30 Awst 2019.

1.2 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (y Llawlyfr) yn ddogfen ganllawiau ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfrifol am baratoi a gweithredu cynllun datblygu, neu'n cyfrannu at y cynllun hwnnw. Dogfen anstatudol ydyw yn hytrach na pholisi cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol (ACLLau) ei hystyried wrth fynd ati i baratoi cynllun datblygu.

1.3 Cafodd y Llawlyfr ei ddiwygio er mwyn ystyried y newidiadau mawr sydd wedi cael eu gwneud i ddeddfwriaeth gynllunio a pholisïau cenedlaethol ers i Argraffiad 1.3 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol gael ei gyhoeddi yn 2015. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau manylach ar baratoi sail dystiolaeth gadarn, gan ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y rownd gyntaf o baratoi cynlluniau datblygu lleol. O ystyried y newidiadau hyn, roedd yn adeg briodol i baratoi Llawlyfr diwygiedig sy'n gyfredol, yn addas i'r diben ac yn cynnwys canllawiau mwy ymarferol ar baratoi cynlluniau.

1.4 Mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ac ymateb llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu terfynol (Argraffiad 3).

2. Cyhoeddusrwydd ac ymgynghori

2.1 Cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, cafodd tri mis o drafodaethau anffurfiol eu cynnal am faterion technegol, gan ddechrau ym mis Hydref 2018. Cafodd y Llawlyfr drafft ei anfon at yr holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau), y diwydiant datblygu, Chomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â nifer o ymgynghoreion statudol eraill, er mwyn casglu adborth anffurfiol. Cynhaliwyd cyfarfodydd â grwpiau penodol megis ACLLau, y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Chomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddeall eu pryderon, ac o ganlyniad cafodd diwygiadau eu gwneud i'r Llawlyfr drafft cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol ddechrau ym mis Mehefin 2019.

2.2 Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw rhestr o randdeiliaid sefydledig sy'n rhan o'r system gynllunio, a chafodd pob un o'r rhain ei hysbysu am yr ymgynghoriad drwy e-bost ar 7 Mehefin 2019. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi trafod yn anffurfiol â grwpiau o swyddogion cynllunio rhanbarthol a Chomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

3.1 Lluniwyd cyfres o 16 cwestiwn i ysgogi trafodaethau â rhanddeiliaid. Roedd y cwestiynau'n seiliedig ar y prif bethau sydd wedi newid yn y Llawlyfr drafft, megis y pwyslais ar gymryd camau'n gynnar yn y broses o baratoi cynllun datblygu i sicrhau bod rhagor o

dystiolaeth fanwl ar gael ynghynt yn y broses, a'r canllawiau ychwanegol ar hyfywedd ariannol i sicrhau bod dyraniadau a pholisïau tai yn ariannol hyfyw ac yn gyflawnadwy. Cafodd cwestiwn agored ei gynnwys hefyd i alluogi rhanddeiliaid i wneud sylwadau cyffredinol.

3.2 Derbyniwyd cyfanswm o 35 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Y grwpiau mwyaf o ymatebwyr fesul math oedd busnesau ac awdurdodau cynllunio lleol (ACLLau), gyda naw ymateb gan fusnesau a 9 gan ACLlau. Roedd y sector busnes yn cynnwys ymatebion gan adeiladwyr tai, ymgynghorwyr cynllunio a chwmnïau seilwaith. O blith y 9 ymateb a dderbyniwyd gan ACLlau, derbyniwyd un ymateb gan grŵp rhanbarthol o 4 ACLlau ac roedd un arall yn ymateb ar y cyd. O'r herwydd gwnaeth cyfanswm o 13 ACLlau ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y ddau grŵp yn cyfrif am 51% o'r holl ymatebwyr. Roedd yr ymatebion eraill yn cynnwys amrediad eang o safbwyntiau gan sefydliadau sector cyhoeddus, cyrff proffesiynol neu grwpiau â diddordeb, y sector gwirfoddol a grwpiau ac unigolion eraill. Mae crynodeb o'r ymatebwyr fesul math yn Nhabl 1 isod, a mae rhestr lawn o ymatebwyr yn Atodiad 1.

Tabl 1: Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu fesul math

Y math o ymatebwr	Nifer yr ymatebion	Canran
1. Busnesau	9	26%
2. Awdurdodau Cynllunio Lleol	9	26%
3. Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	5	14%
4. Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	4	11%
5. Y Sector Gwirfoddol	4	11%
6. Arall	4	11%
Cyfanswm	35	99%

4. Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn

4.1 Mae dadansoddiad cryno o'r canfyddiadau allweddol ar gyfer pob cwestiwn yr ymgynghoriad isod, wedi'i ddilyn gan ymateb Llywodraeth Cymru. Dewisodd llawer o ymatebwyr wneud sylwadau yn hytrach na rhoi ateb uniongyrchol. Lle bynnag yr oedd modd, mae sylwadau a safbwyntiau wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad os ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â thestun y cwestiwn, hyd yn oed os nad oeddent yn atebion

uniongyrchol i'r cwestiwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau'n gwahodd yr ymatebwyr i ymhelaethu ar eu safbwyntiau, felly, mae llawer o'r dadansoddi'n ansoddol.

4.2 Mewn rhai achosion nid yw'r cyfrifiadau a wnaed fel rhan o ddadansoddiad ystadegol i feintoli canrannau yn gwneud cyfanswm o 100%. Mae hyn o ganlyniad i dalgrynnu ffigurau.

Cwestiwn 1 – Mae cynnwys cynllun datblygu lleol (CDLI) bellach wedi'i nodi yn y Llawlyfr (gweler Tabl 1). A yw hyn yn ddigon clir ac yn ddigon cynhwysfawr? A oes elfennau a fyddai'n elwa ar ragor o eglurder, neu sydd wedi eu hepgor? Nodwch yr hyn y dylid ei newid a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	2	1	2	4
Awdurdod Cynllunio Lleol	2	2	2	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	1	0	1	3
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	1	0	1	2
Y Sector Gwirfoddol	0	0	2	2
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	0	2	1	1
Cyfanswm	6	5	9	15
Canran	17%	14%	26%	43%

Dadansoddiad cryno

Nid atebodd canran fawr o ymatebwyr y cwestiwn hwn (43%) Roedd cyfanswm o 31% yn teimlo'n niwtral neu'n cytuno â'r cynnwys a'r materion sydd i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu lleol (CDLlau) Gofynnodd rhai ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r uchod i'r canllawiau cyhoeddus 'Cynllunio eich cymuned: canllaw ar CDLlau' a gyhoeddwyd yn 2006 gael eu diweddarau hefyd.

Dywedodd nifer o ymatebwyr, sef ACLlau, fod ganddynt bryderon ynghylch yr amserlen o 3.5 mlynedd ar gyfer paratoi cynllun datblygu lleol, yn ogystal â lwfans sengl o dri mis ar gyfer llithriant (cyfanswm o 3.75 mlynedd). Ystyrid bod yr amserlen hon yn rhy fyr am nifer o resymau, gan gynnwys: y dystiolaeth mae angen ei chasglu ar gyfer cynlluniau datblygu lleol ail genhedlaeth, yr angen i ddangos bod y safle yn gyflawnadwy ac yn hyfyw, cyllidebau ac adnoddau llai ar gyfer awdurdodau lleol a goblygiadau gweithio ar y cyd. Dywedwyd hefyd ei bod yn bosibl y byddai'r gofyniad i gynllun datblygu lleol 'gydymffurfio'n

gyffredinol' â'r cynllun haen uchaf yn arwain at oedi, gan nad oes cynllun haen uchel wedi'i gyhoeddi ar hyn o bryd.

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr eu bod yn pryderu hefyd fod y Llawlyfr yn canolbwyntio ar ardaloedd trefol, gyda diffyg eglurder ynghylch problemau tai a'r economi yn y cefn gwlad, gan gynnwys diogelu tir amaethyddol a chyfeirio at Ddatganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylwadau cyffredinol o blaid y cynnwys a'r materion sydd i'w cynnwys mewn CDLI Mae'r Llawlyfr a CDLIau yr un mor berthnasol i awdurdodau mewn ardaloedd trefol ag y mae i awdurdodau mewn ardaloedd gwledig, gan ystyried amgylchiadau lleol penodol, yn ogystal â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol – gan gynnwys diogelu tir amaethyddol ac ystyried Datganiadau Ardal. ACLIau sy'n gyfrifol am ddewis ymateb priodol i'r materion y maent yn tynnu sylw atynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r ymatebwyr fod angen diweddaru'r canllawiau cyhoeddus 'Cynllunio eich Cymuned: Canllaw ar CDLIau (2006)'. Mae'r canllawiau wedi dyddio ac nid ydynt bellach yn adlewyrchu'r hierarchaeth ar gyfer cynlluniau datblygu a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio Cymru 2015. Bydd diweddariad i'r cynllun yn alinio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r gofynion yn y Llawlyfr. Bydd yn amlinellu yn eglur y system cynllunio datblygu ac egluro sut y gall pobl gymryd rhan yn y broses er mwyn cefnogi'r gofynion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddechrau gwaith ar adolygiad yn gynnar yn 2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a leisiwyd gan rai ACLIau ynghylch yr amserlen o 3.5 mlynedd ar gyfer paratoi diwygiadau i gynlluniau datblygu lleol. Fel y nodir yn y Llawlyfr, ystyrir bod hyn yn bosibl ar gyfer CDLIau ail genhedlaeth drwy adeiladau ar y dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a defnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth y daethpwyd o hyd iddynt wrth lunio'r cynllun gwreiddiol er mwyn cyflymu'r broses. Mae'n bwysig defnyddio gwybodaeth a systemau sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na dechrau o'r dechrau un. Hyd yn hyn, cytunwyd ar amserlen fyrrach ar gyfer paratoi cynllun o 3.5 mlynedd, gyda lwfans ar gyfer lithriant o dri mis, ym mhob Cytundeb Cyflawni (CC) ar gyfer cynlluniau sydd wedi disodli cynllun a oedd eisoes yn bodoli. Bydd hyn yn helpu i gynnal system a arweinir gan gynllun ledled Cymru. Cynigir na ddylai unrhyw newid gael ei wneud i'r Llawlyfr.

Cwestiwn 2 – A yw'r canllawiau ar sut i gynnal galwad gynhwysfawr am safleoedd ymgeisiol yn gynnar yn y broses CDLI yn ddigon clir a manwl? Os ydych yn anghytuno, nodwch beth sy'n aneglur neu beth mae angen ei ddiwygio a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	0	1	4	4
Awdurdod Cynllunio Lleol	2	2	2	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	1	1	0	3
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	0	0	2	2
Y Sector gwirfoddol	1	0	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	0	2	0	2
Cyfanswm	4	6	8	17
Canran	11%	17%	23%	49%

Dadansoddiad cryno

Nid atebodd bron hanner yr ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac o weddill yr ymatebwyr roedd 23% yn anghytuno. Roedd yr anghytuno mewn perthynas â'r farn bod yr amser i gynnal yr alwad am safleoedd ymgeisiol yn rhy gynnar yn y broses ar gyfer CDLIau. Er bod rhai o blaid gwneud hyn yn gynnar yn y broses, roedd y sector busnes a rhai ACLlau nad oeddent yn cytuno yn dadlau dros gynnal yr ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir cyn yr alwad am safleoedd ymgeisiol, i alluogi datblygwyr i ddeall dyheadau ACLlau ar gyfer tyfu a'r lleoliad sy'n well ganddynt ar gyfer twf. Roedd sylwadau gan y ddau sector yn ceisio eglurder ynghylch ystyr 'cymesuredd' mewn perthynas â gofynion o ran hyfywedd a chyflawnadwyedd yn ystod y cam safleoedd ymgeisiol.

Lleisiodd ACLlau a'r diwydiant datblygu bryder ynghylch lefel y wybodaeth sydd ei hangen i ddangos cyflawniadwyedd yn ystod y cam safleoedd ymgeisiol. Eu dadl nhw oedd ei bod yn canolbwyntio gormod ar adeiladwyr tai mawr, ac y gallai fod yn gostus a pheri problemau ar gyfer datblygwyr bach a chanolig. Gofynnodd ACLlau am ragor o eglurder hefyd ynghylch sut i ymdrin â cheisiadau gan safleoedd sy'n cael eu cyflwyno ar ôl yr alwad am safleoedd ymgeisiol.

Cafodd y canllawiau ar hidlo safleoedd ymgeisiol eu croesawu at ei gilydd; fodd bynnag, gofynnodd cwpl o ACLlau am eglurder ynghylch yr angen i bob safle ymgeisiol fod yn destun arfarniad o gynaliadwyedd (AoG) neu yn ystod pa gam y dylid cynnal yr AoG. Croesawodd rhai ACLlau y ffaith bod yr adnoddau sydd eu hangen ar ACLlau i gynorthwyo

hyrwyddwyr safleoedd yn cael eu cydnabod, a'r posibilrwydd o godi ffi am y gwasanaeth hwn i dalu am gostau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Codwyd nifer o faterion mewn perthynas â'r alwad am safleoedd ymgeisiol. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, mae'r canllawiau ym Mhennod 3 wedi cael eu hailstrwythuro ac mae rhagor o eglurder ynghylch y broses ar gyfer cofrestru ac asesu safleoedd wedi cael ei ychwanegu. Mae diagram newydd wedi cael ei ychwanegu hefyd i roi crynodeb o'r broses ar gyfer safleoedd ymgeisiol a phrif ofynion pob cam. Mae canllawiau ychwanegol wedi cael eu hychwanegu hefyd ynghylch ystyr y dull 'cymesur' ar gyfer y wybodaeth/dystiolaeth a geisir mewn perthynas â math a maint y gwahanol safleoedd y mae'n bosibl y byddant yn cael eu cynnig.

Mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer cynnal yr alwad am safleoedd ymgeisiol, mae hon yn cael ei hamlinellu yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Rheoliadau CDLlau). Mae Rheoliad 14(2) yn ei gwneud y ofynnol i ACLlau gynnal yr alwad am safleoedd ymgeisiol cyn yr ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir (Rheoliad CDLlau 15) a chyhoeddi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Roedd y rheoliadau, a gafodd eu chyhoeddi yn 2005 a'u diwygio yn 2015 yn destun ymgynghoriad blaenorol. Mae'r canllawiau yn y Llawlyfr yn ategu ac yn atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol a'r egwyddor o ofyn am dystiolaeth fanylach ymlaen llaw ac yn gynnar yn y broses o lunio cynllun, i alluogi paratoi strategaeth a ffefrir sy'n fanylach ac yn fwy ystyrlon. Fel y nodir yn y Llawlyfr, dylai datganiad clir sy'n rhoi disgrifiad cyffredinol o'r anheddiad neu safleoedd ehangach a allai fod yn dderbyniol gyd-fynd â'r alwad am safleoedd. Nod y datganiad hwn yw bod yn ganllaw ac atal ceisiadau gan safleoedd mewn ardaloedd holl anaddas.

Cydnabyddir ei bod yn bosibl y bydd safleoedd yn cael eu cynnig ar ôl yr alwad am safleoedd ymgeisiol, yn ystod yr ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir a'r cam adneuo. Mae'r Llawlyfr yn cynnwys canllawiau ar sut y dylai ACLlau ymdrin â'r safleoedd hyn, ond yn y pen draw yr ACLlau sy'n gyfrifol am benderfynu ar y ffordd orau. Mae'r Llawlyfr yn amlinellu proses asesu a argymhellir ar gyfer hidlo safleoedd ymgeisiol. Argymhellir dull graddol sy'n cynnwys cam hidlo cychwynnol (Cam 1). Nid argymhellir AoG ond ar gyfer y safleoedd sy'n llwyddo Cam 1 ac yr ystyrir eu bod yn rhesymol. Unwaith eto mae'r Llawlyfr yn cynnwys digon o arweiniad, ac ACLlau sy'n gyfrifol am benderfynu ar y fethodoleg fwyaf priodol. Nid ystyrir bod angen unrhyw newidiadau eraill.

Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno â'r meini prawf ar gyfer penderfynu a yw safle ymgeisiol yn 'gyflawnadwy' ac yn 'hyfyw yn ariannol'? (paragraff 3.40). Os ydych yn anghytuno, nodwch yr hyn y dylid ei newid a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	2	0	4	3
Awdurdod Cynllunio Lleol	2	1	4	2
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	1	1	3
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	0	0	2	2
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	1	1	0	2
Cyfanswm	6	3	11	15
Canran	17%	9%	31%	43%

Dadansoddiad cryno

Dywedodd bron traean o'r ymatebwyr (31%) eu bod yn anghytuno â'r meini prawf ar gyfer penderfynu a yw safle ymgeisiol yn 'gyflawnadwy' ac yn 'hyfyw'. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn teimlo'n gryf yn erbyn un elfen, sef safle'n cael ei ddiffinio'n hyfyw os yw'r tir yn cael ei werth am bris 20% yn uwch na Gwerth y Defnydd Presennol. Trafodir hyn ymhellach o dan Gwestiwn 9. At ei gilydd roedd ymatebwyr o blaid yr egwyddor o sicrhau bod safleoedd ymgeisiol yn gyflawnadwy ac yn hyfyw yn gynnar yn y broses. Codwyd nifer o faterion lle mae angen rhagor o eglurder – fe'u trafodir isod.

Lleisiodd cwpl o ymatebwyr bryderon ynghylch canolbwyntio ar gyflawnadwyedd a hyfywedd, gan ddweud y gallai hyn effeithio ar gynaliadwyedd safle. Ceisiwyd rhagor o eglurder gan nifer o ymatebwyr ynghylch gofynion penodol 'asesiad hyfywedd' yn ystod y cam safleoedd ymgeisiol a gwahanol gamau'r broses o baratoi cynllun. Roedd rhywfaint o ddryswch ymhlith ymatebwyr ynghylch yr angen i ACLI egluro paramedrau bras y gofynion polisi ar gyfer safle a'r costau seilwaith, cyn yr ymgynghoriad ar y strategaeth a ffeirir. Dadleuodd cwpl o ACLlau na fyddai hyn yn realistig gan nad yw'n bosibl gwybod costau annormal safle yn gywir cyn i arolygon helaeth a drud gael eu cynnal, e.e. archwiliadau tir, arolygon ecolegol, asesiadau o'r risgiau mae pyllau glo yn eu peri ac ati.

Lleisiwyd pryderon gan un ACLlau fod y meini prawf dangosol ar gyfer asesu safleoedd yn rhy feichus i safleoedd bach, a gallai hyn atal safleoedd bach rhag cael eu cynnig. Gofynnwyd a allai ACLlau ddiwygio'r meini prawf, ac os na, cwestiynwyd a oeddent yn rhy rhagnodol.

Ceisiwyd eglurder ynghylch yr ymadrodd 'yn rhydd at ei gilydd rhag rhwystrau ffisegol' mewn perthynas â 'pherchnogaeth tir, seilwaith, mynediad, amodau tir, tirwedd, dynodiadau treftadaeth, perygl llifogydd a llygredd'. Dadleuodd rhai ymatebwyr fod y datganiad hwn yn gwrthdaro â'r prawf dilyniadol a amlinellir yn y polisi cenedlaethol i ddefnyddio tir caeau brown yn hytrach na thir caeau gwyrdd.

Roedd rhywfaint o anghytundeb ynghylch y meini prawf cyflawni ar gyfer safleoedd sydd o dan berchnogaeth gyhoeddus. Dadleuodd un busnes na fydd cynnwys safle sydd o dan berchnogaeth gyhoeddus yn strategaeth gwerthu tir cyngor o reidrwydd yn arwain at y safle'n cael ei ddefnyddio at ei ddiben arfaethedig, ac y dylai'r safle fod wedi penodi datblygwr neu gyflwyno cais cynllunio amlinellol. Dywedodd un ACLlau nad oedd y geiriad ar gyfer strategaeth gwerthu tir yn adlewyrchu senario lle mae'r cyngor yn datblygu safle.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r Llawlyfr i fynd i'r afael â'r materion a godwyd:

- Mae'r holl gyfeiriadau at bris tir 20% yn uwch na'r Gwerth Defnydd Presennol wedi cael eu dileu. Cydnabyddir wrth yr ymatebion a dderbyniwyd y byddai hyn wedi cael effaith negyddol ar ddarparu tai, yn enwedig mewn ardaloedd ymylol, ac roedd diffyg tystiolaeth o blaid cynnwys y ffigur hwn. Trafodir y mater ymhellach o dan Gwestiwn 9.
- Mae'r canllawiau wedi cadarnhau bod rhaid ystyried cynaliadwyedd safle yn ogystal â chyflawnadwyedd a hyfywedd. Mae cyfeiriad arall at y drefn chwilio ym Mholisi Cynllunio Cymru wedi cael ei ychwanegu, i sicrhau nad yw gofynion polisi cynllunio'n cael eu hanwybyddu.
- Mae rhagor o ganllawiau ac eglurder wedi cael eu darparu ynghylch cymesuredd y wybodaeth y gofynnir amdani a'r gofynion ar gyfer asesu hyfywedd ym mhob cam o'r broses, i sicrhau bod y lefel o wybodaeth y gofynnir amdani gan ACLlau yn ddigonol i alluogi asesiad safle trwyadl, ac ar yr un pryd yn briodol er mwyn osgoi atal tiffeddianwyr rhag cynnig safleoedd addas.
- Mae canllawiau wedi cael eu hychwanegu i egluro'r term 'at ei gilydd yn rhydd rhag rhwystrau ffisegol'. Mae'r canllawiau bellach yn cyfeirio at 'rwystrau na ellir eu goresgyn'.
- Mae cynnwys meini prawf cyflawni ar gyfer safleoedd sydd o dan berchnogaeth gyhoeddus yn atgyfnerthu'r gofyniad i bob safle ddangos y gallai gyflawni o fewn amserlen ragnodedig, fel yr adlewyrchir yn y taflwybr tai. Mae hyn yr un mor berthnasol i safleoedd sydd o dan berchnogaeth sector cyhoeddus ag y mae i safleoedd sydd o dan berchnogaeth breifat. Mae'r Llawlyfr wedi ceisio egluro sut y dylai safleoedd sydd o dan berchnogaeth gyhoeddus ddangos ymrwymiad i gyflawni mewn strategaeth gwerthu tir a/neu drwy benderfyniad gan y Cyngor ynghylch a ddylai gadw neu werthu'r tir.

Cwestiwn 4 – A yw'r Llawlyfr yn ddigon clir ynghylch sut i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd neu ISA cyfannol? Os ydych yn anghytuno, nodwch sut rydych chi'n credu y gellid gwella'r canllawiau a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	1	3	0	6
Awdurdod Cynllunio Lleol	1	3	2	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	1	0	3
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	0	2	0	2
Y Sector Gwirfoddol	1	1	0	2
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	1	0	0	3
Cyfanswm	4	10	2	19
Canran	11%	29%	6%	54%

Dadansoddiad cryno

Nid atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn (54%), ac nid oedd 29% yn cytuno nac yn anghytuno. At ei gilydd roedd ymatebwyr yn cefnogi ac yn croesawu'r canllawiau ar yr arfarniad o gynaliadwyedd (AoG). Gwnaeth yr ymatebwyr hynny a chanddynt wybodaeth arbenigol am arfarniadau o gynaliadwyedd, sef ACLlau ac un o asiantaethau'r Llywodraeth, awgrymu nifer o fân ddiwygiadau i sicrhau cywirdeb a chysondeb â'r fframwaith cyfreithiol. Roedd y rhain yn ymwneud â'r adran ar Asesu'r Effaith ar Iechyd, y camau ymgynghori yn yr AoG a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r canllawiau ar y gwahanol ofynion asesu a gyflwynir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Gymraeg yn Neddf Cynllunio Cymru, y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru. Croesawodd ymatebwyr gynnal Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd (AloG), ond dywedodd un ACLlau y byddai'n hoffi gweld enghraifft o AloG yn cael ei chynnwys.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion a'r newidiadau a awgrymwyd, ac wedi gwneud nifer o fân gywiriadau i'r canllawiau i sicrhau cysondeb â'r fframwaith cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys diwygiadau i'r adran ar Asesu'r Effaith ar Iechyd, cyfleoedd i randdeiliaid gymryd rhan yn yr AoG, a diwygiadau i'r adran ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn perthynas ag ymgynghori a gofynion cyfreithiol.

Lle nad yw diwygiadau a awgrymwyd wedi cael eu gwneud, mae hyn oherwydd yr ystyrir bod y newid yn rhy fanwl. Bwriad y bennod yw rhoi trosolwg byr o ofynion arfarniadau o gynaliadwyedd, gan ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gofynion deddfwriaethol eraill. Ni fwriedir iddi ailadrodd neu ddisodli'r deddfwriaeth neu'r polisiau perthnasol, a dylid darllen y rhain ochr yn ochr â'r Llawlyfr.

Cwestiwn 5 – A yw rhestr wirio'r Cynllun Dadriscio' (tudalen 83) yn grynodedb defnyddiol o faterion craidd llunio cynllun fel y'u crynhoir ym Mhennod 5? Os ydych yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud a pam.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	3	0	2	4
Awdurdod Cynllunio Lleol	3	3	0	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	1	0	0	4
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	1	1	0	2
Y Sector Gwirfoddol	1	1	0	2
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	0	1	0	3
Cyfanswm	9	6	2	18
Canran	26%	17%	6%	51%

Dadansoddiad cryno

O'r 26% o ymatebwyr a gytunodd â'r cwestiwn, roedd llawer yn cefnogi'r rhestr wirio a'r pwyslais ar ei defnyddio yn gynnar yn y broses er mwyn darparu CDLI cadarn. O'r 6% nad oeddent yn cytuno, yr unig thema a ddaeth i'r amlwg oedd rhai busnesau'n cwestiynu trefn y rhestr wirio. Gwnaethant ddweud y dylai'r prif faterion a blaenoriaethau gael eu rhestru gyntaf.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dylai rhestr wirio'r Cynllun Dadriscio gael ei threfnu'n well er mwyn ystyried y prif faterion a blaenoriaethau. I sicrhau eglurder, caiff y rhestr ei hadrefnu yn y fersiwn derfynol gyhoeddedig o'r Llawlyfr i adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn.

Cwestiwn 6 – A ydych yn cytuno bod y canllawiau ar lunio strategaeth ofodol yn ymdrin yn ddigonol â'r holl elfennau allweddol sydd eu hangen wrth asesu rôl a swyddogaeth lleoedd? Os ydych yn anghytuno, nodwch yr hyn y dylid ei newid a pham (tudalen 88).

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	0	1	3	5
Awdurdod Cynllunio Lleol	3	2	1	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	1	0	1	3
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	1	1	0	2
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	0	1	0	3
Cyfanswm	6	5	5	19
Canran	17%	14%	14%	54%

Dadansoddiad cryno

O'r ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn hwn roedd y gyfran fwyaf (17%) yn cytuno bod y canllawiau ar lunio strategaeth ofodol yn cynnwys yr elfennau allweddol. Croesawyd y rhestrau gwirio fel crynodeb defnyddiol a oedd yn tynnu sylw at bolisiâu cenedlaethol.

Gwnaeth yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno (14%) gynnig rhai man newidiadau mewn perthynas ag ychwanegu meini prawf i'r rhestr wirio o dan baragraff 5.10.

Dywedodd dau ACLlau (un trefol, un gwledig) eu bod yn credu bod y canllawiau yn rhy benodol a bod eu ffocws yn rhy benodol, ac nad oeddent yn berthnasol i'w hawdurdod penodol.

Dywedodd dau gorff proffesiynol y dylai'r canllawiau ddweud yn clir y bydd anghenion ardal yn cael eu diffinio gan dystiolaeth a gwybodaeth rhanddeiliaid a'r gymuned leol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ychwanegiadau at baragraff 5.10 a awgrymwyd, ac mae wedi adrefnu'r rhestr wirio i sicrhau ei bod yn fwy strwythuredig a'i bod yn osgoi dyblygu diangen. Mae nifer o gyfeiriadau wedi cael eu hychwanegu hefyd i sicrhau bod y gymuned leol yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o baratoi'r strategaeth ofodol.

Mae'r canllawiau a ddarperir ar lunio strategaeth ofodol yn fan cychwyn ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru, boed yn drefol yn bennaf neu'n wledig yn bennaf. Bydd yn rhaid i ACLlau ystyried yr amgylchiadau unigol sy'n benodol i'w hardal, y galw a dyheadau, yn ogystal â gofynion polisiâu cynllunio cenedlaethol. Felly, ni chynigir unrhyw newidiadau gan y gallai ACLlau ddewis yr hyn sy'n briodol i'w hardal nhw o'r canllawiau.

Cwestiwn 7 – A yw'r canllawiau ar dai a senarios twf economaidd yn ddigon clir i alluogi'r sawl sy'n llunio cynllun i ystyried ystod o opsiynau twf a nodi anghenion/cynllunio darpariaeth, ar gyfer cartrefi a swyddi, sy'n briodol ac yn gyflawnadwy? Os ydych yn anghytuno, nodwch pam a sut rydych chi'n credu y dylid gwella'r canllawiau.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	2	0	3	4
Awdurdod Cynllunio Lleol	3	1	2	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	1	0	4
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	0	0	1	3
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	0	1	0	3
Cyfanswm	6	3	6	20
Canran	17%	9%	17%	57%

Dadansoddiad cryno

Nid atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (57%) y cwestiwn hwn, ac nid oedd 9% arall yn teimlo'r un ffordd na'r llall ynghylch y senarios mewn perthynas â thai a thwf economaidd a restrir yn y Llawlyfr. Roedd yr un nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r broses ar gyfer asesu tai a lefelau twf economaidd mewn CDLlau ag a oedd yn anghytuno.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r cysylltiad rhwng tai a rhagamcanu economaidd yn y Llawlyfr, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig lle y gall swyddi fod yn agos at bobl leol ac yn gofyn am nifer digonol o dai newydd i gefnogi cyfleoedd cyflogaeth lleol. I'r gwrthwyneb, mae rhai busnesau'n credu bod gormod o bwyslais yn y Llawlyfr ar alinio tai a swyddi, ac y gallai hyn leihau lefel y tai sy'n cael eu darparu mewn cynlluniau datblygu lleol. Mae llawer o fusnesau o'r farn bod y sefyllfa hon yn cael ei gwaethygu ymhellach gan ansicrwydd ynghylch dyraniadau tir ar gyfer swyddi a phatrymau cymudo sydd yn aml yn

rhychwantu ffiniau gweinyddol, sy'n golygu na fydd angen bob amser i dai fod yn yr un ardal â'r ardal lle mae'r twf economaidd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cymysgedd o ymatebion ar y senarios sy'n cysylltu tai a swyddi. Mae sail resymegol y dull yn y Llawlyfr sy'n cydnabod pwysigrwydd deall y ddau rhagamcaniad yn hanfodol i egluro'r berthynas rhwng tai a thwf economaidd, newid yn y boblogaeth a phatrymau cymudo mewn cynlluniau datblygu. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon rhai busnesau, mae'r Llawlyfr yn glir nad oes perthynas fathemategol glir rhwng tai a thwf mewn swyddi, ac ni all rhagamcanion a thybiaethau gael eu halinio ond yn fras. Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod y ddwy elfen yn cael eu hystyried yn gyffredinol er mwyn sicrhau bod lefelau twf a'u heffeithiau yn gynaliadwy, gan leihau'r angen i deithio mewn cerbydau preifat.

Cwestiwn 8 – A oes digon o arweiniad ymarferol ar sut i baratoi taflwybr tai er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu tai? A yw diffiniadau'r cydrannau'n ddigon clir? Os ydych yn anghytuno, nodwch yr hyn y dylid ei newid a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	2	1	2	4
Awdurdod Cynllunio Lleol	4	1	1	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	2	0	3
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	0	0	1	3
Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	0	0	1	3
Cyfanswm	6	5	5	19
Canran	17%	14%	14%	54%

Dadansoddiad cryno

Dywedodd 17% o ymatebwyr, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ACLlau, eu bod yn credu bod y canllawiau ar baratoi taflwybr tai yn ymarferol ac yn glir.

Lleisiodd rhai ACLlau bryderon ynghylch lefel y manylder sydd ei hangen i fformiwleiddio taflwybr, gan ddweud ei bod yn 'rhy fawr, yn rhy ragfynegol a'r tu hwnt i reolaeth ACLlau'. Dadleuodd un ACLlau y byddai taflwybr tai yn dyddio'n gyflym iawn, ac y byddai orau pe

bai'n cael ei gadw ar wahân i gynllun datblygu lleol a'i ddiweddarau drwy'r Adroddiad Monitro Blyneddol. Dywedodd un ACLI yr hoffai weld enghreifftiau o'r arferion gorau. Dadleuodd corff proffesiynol o blaid dadansoddiad o'r ffordd y bydd y amcangyfrif o'r tai a fydd yn cael eu darparu yn bodloni anghenion tai grwpiau gwahanol i gyd-fynd â'r taflwybr. Roedd ymatebwyr o blaid cysylltu'r taflwybr tai â'r Adroddiadau Monitro Blyneddol. Fodd bynnag, dywedodd un corff proffesiynol ei fod yn aneglur ynghylch sut mae'r trothwyon monitro'n cysylltu â'r taflwybr tai.

Ym mis Gorffennaf 2018 gynhaliodd Llywodraeth Cymru Alwad am Dystiolaeth i geisio barn ar sut i wella'r ffordd y cyflawnir y gofynion mewn perthynas â thai mewn CDLlau. Gwnaeth yr ymgynghoriad dilynol, Darparu tai drwy'r system gynllunio' a ddechreuodd ym mis Hydref 2019, gynnig opsiwn arall yn lle monitro'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai, sef monitro tai sy'n cael eu darparu drwy daflwybr tai CDLI ac adrodd ar hyn yn yr Adroddiad Monitro Blyneddol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys rhagor o eglurder yn y Llawlyfr ynghylch sut i gyfrifo taflwybr tai, yn enwedig ar ôl derbyn y chynllun a phenderfynu ar gyfradd gyflawni ddisgwyliedig wedi'i haddasu. Mae'r derminoleg wedi cael ei hegluro ynghyd â chyfrifiadau manwl, er mwyn galluogi penderfynu ar daflwybr, Mae cyfeiriad wedi cael ei ychwanegu hefyd at y cysylltiad rhwng yr adroddiad monitro blyneddol a phwysigrwydd sicrhau bod y cyflawni'n cyd-fynd â'r cyfraddau disgwyliedig.

Cwestiwn 9 – A ydych yn cytuno â'r diffiniad o hyfywedd (paragraff 5.81) ac elfennau allweddol hyfywedd (tablau 24 a 25)? Os ydych yn anghytuno, nodwch beth mae angen ei ddiwygio a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	0	0	6	3
Awdurdod Cynllunio Lleol	2	1	3	2
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	0	2	4
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	0	1	0	3
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	1	0	0	3
Cyfanswm	4	2	11	18
Canran	11%	6%	31%	51%

Dadansoddiad cryno

Lleisiodd nifer uchel o ymatebwyr (31%), yn benodol ACLlau a busnesau, bryderon ynghylch y diffiniad o hyfywedd (paragraff 5.81). Yn benodol roedd y pryderon hyn yn gysylltiedig â phris o leiaf 20% yn uwch na Gwerth Defnydd Presennol y tir i annog y tiffeddiannwr i werthu. Ystyrid bod y ffigur hwn yn afrealistig, yn enwedig ar gyfer tir amaethyddol lle y byddai Gwerth Defnydd Presennol o £10,000 yr erw yn golygu gwerthu pob erw am £2,000 ychwanegol yn unig (ar 20%). Nid ystyrid yn bydda'r gyfradd hon yn gweithio. Byddai llawer o fusnesau a thirfeddianwyr yn cadw eu daliadau tir a'u ffrydiau referiwr presennol gan na fyddai digon o gymhelliad i werthu. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn lleihau faint o dir sy'n cael ei gynnig yn sylweddol ac yn arwain at ganlyniadau negyddol difrifol ar y gallu i gyflawni dyletswyddau cynllunio a darparu tai fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd mwy ymylol. Roedd consensws cryf ymhlith busnesau ac ACLlau nad yw'r gyfradd hon yn cael ei hategu gan y dystiolaeth a pholisïau cynllunio cenedlaethol, a'i bod yn groes i ganllawiau cyhoeddus eraill (ee Harman, RICS). Felly dylai gael ei dileu o'r Llawlyfr. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y pris uwchlaw Gwerth y Defnydd Presennol yr oedd tiffeddianwyr yn bodlon ei dderbyn am eu tir yn amrywio o ardal i ardal – ond ei fod cryn tipyn yn uwch nag 20%. Gyda hyn mewn golwg, roedd consensws cyffredinol na ddylai'r Llawlyfr bennu'r pris a delir am dir i'w ddatblygu. Yn hytrach dylai fod yn hyblyg – ond yn rhesymol – er mwyn bodloni'r gofynion polisi mewn cynlluniau datblygu lleol cyfredol, wrth hefyd sicrhau datblygiadau cynaliadwy gyda ffocws ar greu lleoedd. Pe bai'r pris o 20% yn uwch na Gwerth y Defnydd Presennol yn parhau, ystyrid y byddai hyn yn rhwystro datblygu tai ledled Cymru.

Mae Tabl 24 yn y Llawlyfr yn amlinellu'r mewnbynnau craidd y dylid eu hystyried wrth gynnal astudiaeth hyfywedd lefel uchel. At ei gilydd roedd ymatebwyr yn cefnogi'r mewnbynnau. Ond roedd rhai ACLlau a busnesau yn pryderu y dylid bod yn ofalus ynghylch cynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu mewn astudiaethau hyfywedd. Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw adeiladwyr tai mawr yn cyfrannu at y broses, ac felly mae ffigurau'r gwasanaeth yn cael eu darparu gan adeiladwyr tai llai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Oherwydd arbedion maint, yn aml mae eu costau adeiladu'n uwch ac yn dod yn llai perthnasol mewn cynlluniau datblygu lleol ar gyfer safleoedd datblygu mwy. Mae diffygion eraill ffigurau'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu yn cynnwys y ffordd y cyflwynir y data ar ffurf amrediad o gostau, yn hytrach na chyfradd sengl ar gyfer safleoedd, yn ogystal â chyfraddau'n amrywio o un lleoliad i'r llall yn ardal y cynllun.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y nifer sylweddol o bryderon a leisiwyd, yn ogystal â lefel y pryder mewn perthynas â chyfyngu'r pris uwchlaw Gwerth y Defnydd Presennol i 20%. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, yn benodol yr effaith negyddol ddifrifol y byddai dull o'r fath yn ei chael ar y tir sy'n cael ei gynnig ar gyfer datblygu tai sector cyhoeddus a sector preifat, ni fyddai'n briodol cyfyngu'r pris uwchlaw Gwerth Defnydd Presennol tir. Er mwyn alinio â thystiolaeth gyhoeddus arall ac i annog pobl i gynnig tir i'w ddatblygu yn dai fforddiadwy gan y sector preifat a'r sector chyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r cyfeiriad at y ganran benodol hon yn y fersiwn gyhoeddus o'r Llawlyfr. Dylai'r Meincnod Gwerth Tir gael ei seilio ar amgylchiadau unigol a chynnwys trafodaethau ag ACLlau,

datblygwyr a thirfeddianwyr i sicrhau bod tir yn cael ei gynnig i'w ddatblygu, gan sicrhau bod gofynion cynaliadwyedd mewn cynlluniau datblygu lleol cyfredol yn cael eu bodloni.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sylwadau ynghylch cyfyngiadau posibl ffigurau'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu. Tynnir sylw at hyn yn Nhabl 24 y Llawlyfr sy'n dweud bod costau adeiladu'n cael eu llywio gan ddatblygwyr bach a chanolig, a bod angen i awdurdodau, mewn cydweithrediad â'r diwydiant datblygu, ystyried unrhyw addasiadau yn y profi lefel uchel a'r profi sy'n benodol i safle y mae'n bosibl eu bod yn berthnasol i'w hardal. Mae'r Llawlyfr yn ei gwneud yn glir, er bod y Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu yn ffynhonnell bosibl ar gyfer gwybodaeth am gostau, mai'r ffynhonnell orau fyddai llyfr cyfrifon agored sy'n cynnwys costau datblygiad(au) diweddar tebyg mewn marchnad neu is-farchnad. Lle nad yw hyn ar gael, gellid dod o hyd i gostau o'r Gwasanaethau Gwybodaeth am Gostau Adeiladu. Y prif bwynt sy'n cael ei bwysleisio yn y Llawlyfr yw y dylai'r gwaith ar hyfywedd i ategu cynlluniau gynnwys yr holl gostau y gwyddys amdanynt er mwyn sicrhau bod y gwaith yn gyfredol, yn gadarn ac yn benodol i'r ardal leol.

Cwestiwn 10 – A yw'r Llawlyfr yn gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion hyfywedd profion ar lefel uchel a phrofion penodol i safle? Os naid ydych yn credu bod hyn yn ddigon clir, beth mae angen ei newid yn eich barn chi a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	1	0	3	5
Awdurdod Cynllunio Lleol	2	1	3	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	1	0	4
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	0	1	1	2
Y Sector Gwirfoddol	0	1	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	1	1	0	2
Cyfanswm	4	5	7	19
Canran	12%	14%	20%	54%

Dadansoddiad cryno

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad atebodd llawer o ymatebwyr (54%) y cwestiwn hwn, ac nid oedd y ganran uchaf o ymatebwyr (20%) yn cytuno bod digon o eglurder ynghylch y gofynion gwahanol o ran hyfywedd ar gyfer profi ar lefel uchel a phrofion sy'n

benodol i ardal leol. Er bod llawer o ACLlau o blaid yr egwyddor o wahaniaethu rhwng y gofynion hyfywedd, roedd ganddynt bryderon ynghylch goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer paratoi'r ddau arfarniad, diffyg y gwybodaeth a dderbynnir yn y cam safleoedd ymgeisiol a gallu'r ddau arfarniad i wrthsefyll newid yn y hinsawdd. Cafodd llawer o'r pryderon hyn eu hailadrodd gan fusnesau a chyrff proffesiynol. Gwnaethant ddweud y byddai'r amser hir rhwng yr arfarniad, y cam ymgeisio, y cam cynllunio a'r cam cyflawni'r safle yn gwneud cynnwys yr arfarniad yn annilys, a gwnaethant ofyn i'r rhan o'r Llawlyfr sy'n dweud nad oes angen cynnal arfarniad o hyfywedd arall yn ystod y cam ymgeisio ond mewn amgylchiadau eithriadol gael ei dileu

I helpu i ddarparu dull cyson mewn perthynas â hyfywedd ledled Cymru, roedd nifer fach o ymatebwyr o blaid panel arbenigol yn cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru, neu adeiladu ar y gwaith yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ar hyfywedd er mwyn cyflwyno pecyn cymorth sengl ar hyfywedd ar gyfer Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon ACLlau, busnesau a chyrff proffesiynol wrth gynnal arfarniadau o hyfywedd ar gyfer safleoedd allweddol, a dilysrwydd yr arfarniadau hyn o'u dechrau hyd y cam cais cynllunio. Ar gyfer safleoedd sy'n allweddol i gyflawni strategaeth y cynllun, mae gofynion polisi cynllunio cenedlaethol yn glir bod rhaid cynnal arfarniad o hyfywedd sy'n benodol i'r safle (Polisi Cynllunio Cymru paragraff 4.2.19). Mae'r gofyniad hwn yn cael ei ailadrodd a'i egluro ymhellach yn y Llawlyfr i ategu cynnal arfarniadau'n gynnar yn y broses a dangos bod y strategaeth a ffeirir a'r camau dilynol yn gyflawnadwy. Gan na chynigir unrhyw newid i Bolisi Cynllunio Cymru yn hyn o beth, bydd y Llawlyfr yn parhau i gydymffurfio â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol. Bydd rhoi rhagor o bwyslais yn y Llawlyfr y bydd rhaid i bob parti gyfranogi yn y broses ynghynt, gyda thystiolaeth fwy cadarn o hyfywedd, yn galluogi cynlluniau i ddangos eu bod yn gyflawnadwy. Mae'r Llawlyfr yn ymhelaethu ar y disgwyliadau ynghylch cwmpas a chymesuredd y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer safleoedd o wahanol feintiau. Nid yw'n rhwystro cynigion datblygu rhag cael eu cyflwyno, ond mae'n rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch cyflawni cynlluniau.

Cafodd y prosiect hyfywedd rhanbarthol ei gefnogi (drwy gyllid grant) gan Lywodraeth Cymru yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, ac mae'n cynnwys adeiladu model hyfywedd a gwneud astudiaeth hyfywedd lefel uchel nid yn unig i lywio'r gwaith o baratoi ac adolygu cynllun, ond hefyd y broses o reoli datblygiadau a gwneud penderfyniadau. Bydd model safonol yn arwain at arbedion o ran cost ac adnoddau ar gyfer awdurdodau, a phroses fwy tryloyw i'r diwydiant gymryd rhan ynddi a fydd hefyd yn gwella'r broses o lunio cynlluniau a rheoli datblygiadau. Anogir ACLlau ledled Cymru i ddefnyddio'r model, gan fewnbynnu data lleol. Dylai hyn ddarparu ffordd fwy costeffeithiol a chyson ar gyfer y dyfodol, gan fanteisio i'r eithaf ar adnoddau a gwneud y canlyniadau'n fwy cadarn.

Cwestiwn 11 – A yw'r Llawlyfr yn rhoi digon o arweiniad i alluogi paratoi cynllun seilwaith ac i ddangos sut i ymgorffori elfennau craidd y cynllun seilwaith yn y cynllun datblygu? Os ydych yn anghytuno, nodwch beth rydych chi'n meddwl mae angen ei ddiwygio a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	3	1	0	5
Awdurdod Cynllunio Lleol	2	1	3	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	1	0	4
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	0	0	0	4
Y Sector Gwirfoddol	0	0	2	2
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	1	0	0	3
Cyfanswm	6	3	5	21
Canran	17%	9%	14%	60%

Dadansoddiad cryno

Gyda dim ond 14% o ymatebwyr yn anghytuno â'r canllawiau ar y cynllun gweithredu, cydnabyddir bod y rhan fwyaf o'r grwpiau at ei gilydd o blaid cynlluniau datblygu lleol yn paratoi cynllun seilwaith a chynnwys yr elfennau craidd ynddynt. Er bod rhai ymatebwyr o blaid y gofyniad i ddiweddarau'r cynllun seilwaith yn rheolaidd, ac yn cefnogi'r sicrwydd mae hyn yn ei roi ynghylch amserlenni datblygu, lleisiodd nifer fach o ymatebwyr bryderon ynghylch ceisio cyngor, cytundeb a thystiolaeth gan gwmnïau cyfleustodau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon rhai ymatebwyr, yn enwedig cyrff ymgynghori penodol megis darparwyr cyfleusterau, yn ystod y broses ar gyfer cynlluniau datblygu. I dynnu sylw at bwysigrwydd cyrff ymgynghori yn cymryd rhan yn gynnar, mae'r Llawlyfr wedi amlinellu enghreifftiau clir o'r cyrff ymgynghori y dylid eu cynnwys, sut ac erbyn pryd, a chanllawiau ar ddefnyddio'r gwybodaeth hon i ddangos amserlen ar gyfer y seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r cynllun. Mae canllawiau ychwanegol wedi eu cynnwys i helpu gyda'r gwaith o hidlo safleoedd arfaethedig lle mae gwybodaeth yn cael ei cheisio, gan ganolbwyntio ar y rheini lle mae lefel uchel o sicrwydd ynghylch cynhwysiant o fewn y cynllun, ac o ganlyniad lleihau'r baich ar ddarparwyr seilwaith.

Cwestiwn 12 – Ydych chi'n cytuno â'r rhestr o ddangosyddion i'w cynnwys yn y fframwaith monitro (tabl 29)? Os ydych yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud a pham eu bod yn angenrheidiol yn eich barn chi.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	2	1	0	6
Awdurdod Cynllunio Lleol	3	1	2	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	1	0	4
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	1	1	0	2
Y Sector Gwirfoddol	1	0	1	2
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	0	0	1	3
Cyfanswm	7	4	4	20
Canran	20%	11%	11%	58%

Dadansoddiad cryno

Roedd bron chwarter o'r holl ymatebwyr (20%) yn cytuno â'r rhestr o ddangosyddion monitro yn Nhabl 29 o'r Llawlyfr, gyda dim ond 11% yn anghytuno. Mae'r Llawlyfr yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr Adroddiadau Monitro Blynnyddol wrth roi diweddariad ar berfformiad cynlluniau datblygu lleol. Mae hefyd yn argymhell ymgynghori ar yr adroddiad cyhoeddedig â rhanddeiliaid allweddol, y gymuned a phartion â diddordeb. Gofynnodd rhai ymatebion gan awdurdodau lleol a chyrff proffesiynol am ragor o eglurder ynghylch yr amserlen ar gyfer unrhyw ymgynghoriad ar yr Adroddiad Monitro Blynnyddol, cyhoeddi'r adroddiad hwn a'i argaeledd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai'r Llawlyfr fod ar ei ennill o gynnwys rhagor o eglurder ynghylch ymgynghori ar yr Adroddiad Monitro Blynnyddol. Dechreuodd yr ymgynghoriad 'Darparu tai drwy'r system gynllunio' ym mis Hydref 2019, ac roedd yn cynnig gwneud newidiadau i'r canllawiau ar fonitro a'r Adroddiadau Monitro blynnyddol, ac o ganlyniad yn disodli'r ymgynghoriad hwn mewn perthynas â'r elfennau hynny. Mae newidiadau i'r Llawlyfr mewn perthynas ag Adroddiadau Monitro Blynnyddol yn cael eu hegluro a'u hamlinellu yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad Darparu tai drwy'r system gynllunio, sydd wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Cwestiwn 13 – A yw'r canllawiau ar y weithdrefn Adolygu Ffurf Fer yn ddigon clir a defnyddiol? Os ydych yn anghytuno, nodwch beth y gellid ei ddiwygio a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	4	0	1	4
Awdurdod Cynllunio Lleol	2	4	0	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	1	0	4
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	0	1	1	2
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	1	0	0	3
Cyfanswm	8	6	2	19
Canran	23%	17%	6%	54%

Dadansoddiad cryno

O'r 23% o ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cwestiwn, roedd llawer ohonynt o'r farn bod y canllawiau'n ddigon clir ac yn ddefnyddiol. O'r 6% nad oeddent yn cytuno, roedd yr unig bryderon a ddaeth i'r amlwg yn gysylltiedig â'r amserlen ar gyfer paratoi cynllun o un flwyddyn a amlinellir yn Nhabl 34 y Llawlyfr. Mae'r tabl yn nodi amserlen o chwe mis ar gyfer y cam cyn adneuo a chwe mis arall ar gyfer y cam adneuo cyn cyflwyno'r cynllun datblygu lleol i'w archwilio. Roedd nifer fach o awdurdodau o'r farn bod yr amserlen hon yn rhy fyr ac yn afrealistig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yr amserlen ar gyfer paratoi adolygiad ffurf fer o gynllun datblygu lleol gryn dipyn yn fyrrach nag ar gyfer cynllun newydd, ar gyfer adolygiad ffurf fer nid oes angen ymgynghoriad cyn adneuo na pharatoi strategaeth a ffeirir. Mae hyn wedi cael ei amlinellu'n glir yn y Llawlyfr a Rhan 4A o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru), ac mae'r canllawiau sydd wedi cael eu paratoi yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd wrth i Lywodraeth Cymru weithio'n agos â'r awdurdod sydd wedi cynnal yr adolygiad ffurf fer o'r cynllun. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau yn hyn o beth.

Cwestiwn 14 – A ydych yn cytuno â nifer a chynnwys y materion sydd i'w cynnwys mewn Cynllun Datblygu Strategol (CDS)? Os na, beth ydych chi'n anghytuno ag ef a pham?

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	1	0	3	5
Awdurdod Cynllunio Lleol	0	5	1	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	2	0	3
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	1	0	0	3
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	0	1	1	2
Cyfanswm	3	8	5	19
Canran	9%	23%	14%	54%

Dadansoddiad cryno

I grynhoi, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r canllawiau ac yn cytuno bod y bennod yn cynnwys y brif faterion sy'n berthnasol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS).

Nododd un ACLlau fod cynnwys yr CDS yn cael ei ailadrodd rhywfaint ym mharagraffau 2.9 a 10.6, gan dynnu sylw at rai anghysondebau a phethau a oedd wedi cael eu hepgor.

Roedd rhywfaint o ddryswch mewn perthynas â nodi safleoedd ar gyfer tai mewn CDS, a'r cysylltiad rhwng 'ardal archwilio' CDS a sut y gwneir dyraniadau drwy'r cynllun datblygu byr (CDLI byr). Gofynnodd un ymatebwr am eglurdeb ynghylch sut y gallai'r CDS baratoi taflwybr cyflawni ar gyfer tai a swyddi os nad yw safleoedd yn cael eu nodi yn yr CDS. Dywedodd rhai ymatebwyr ei bod yn aneglur a oedd Llywodraeth Cymru wedi pennu trothwy ar gyfer safle strategol o 1,000 o anheddau, neu a oedd y ffigur hwn yn ddangosol.

Cwestiynodd un busnes a oedd yn briodol cynnal Astudiaeth Capasiti Trefol ar gyfer yr CDS, gan ddadlau eu bod yn draddodiadol yn canolbwyntio ar ffynonellau cyflenwi llai nad ydynt yn strategol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud diwygiadau i gynnwys CDSau ym mharagraffau 2.9 a 10.6 i sicrhau eu bod yn gyson, gyda meysydd pwnc ychwanegol yn cael eu cynnwys lle ystyrid bod hynny'n briodol.

Mae rhagor o eglurder wedi cael ei roi yn y Llawlyfr i egluro'r cysylltiad rhwng 'ardaloedd ymchwil' CDS a sut y gwneir dyraniadau drwy'r CDLI. Y trothwy enghreifftiol ar gyfer safleoedd mewn CDS yw 1,000 o anheddau. Mae'r Llawlyfr wedi cael ei ddiwygio i sicrhau bod hyn yn glir. Mae angen i bob Panel Cynllunio Strategol bennu terfyn priodol a rhoi tystiolaeth am y ffigur hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu paratoi rhagor o ganllawiau ar yr CDS a hierarchaeth y cynllun datblygu wrth i'r CDS a'r hierarchaeth ddatblygu. Ystyrir bod digon o ganllawiau ar yr adeg hon i alluogi dechrau CDS. Bydd cynnwys CDS yn debyg i CDLI presennol o ran cwmpas, er y bydd ei natur a'i faint yn fwy strategol. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i fformiwleiddio taflwybr mewn CDS, yn yr un modd â CDLI. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gydag ACLlau/Panelau Cynllunio Strategol i sicrhau bod y cynlluniau'n adlewyrchu'r cynnwys priodol.

Cwestiwn 15 – A oes arweiniad clir a digonol i alluogi paratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS)? Os ydych yn anghytuno, beth ydych chi'n meddwl y dylid ei ddiwygio a pham.

Trosolwg ystadegol

Ymatebwyr fesul math	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Dim ymateb
Busnes	2	1	1	5
Awdurdod Cynllunio Lleol	1	4	1	3
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	0	1	1	3
Corff Proffesiynol / Grŵp â Diddordeb	1	0	0	3
Y Sector Gwirfoddol	1	0	0	3
Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	0	1	1	2
Cyfanswm	5	7	4	19
Canran	14%	20%	11%	54%

Dadansoddiad cryno

At ei gilydd roedd ymatebwyr yn cefnogi cynnwys y canllawiau ar Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ragor o eglurder ar yr amserlen ar gyfer darparu CDS, y goblygiadau ar gyfer y broses bresennol ar gyfer adolygu CDLI, a phryd i ddechrau'r gwaith o baratoi CDLI Byr. Hoffai un ACLlau weld llinell amser i ddangos sut y gellir paratoi'r cynlluniau ochr yn ochr.

Gofynnodd un ymatebwr am ragor o eglurder ynghylch cynnwys penodol CDLI Byr, ynghyd â rhestr neu dabl o'r dystiolaeth sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer CDS. Byddai'r ACLI yn croesawu eglurder ynghylch pa ddogfennau sylfaenol y dylid eu comisiynu'n rhanbarthol a pha rai y dylid eu comisiynu'n lleol, a pha dystiolaeth o CDSau y gellir ei defnyddio ar gyfer CDLlau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cafodd y fframwaith cyfreithiol i alluogi dechrau'r gwaith o baratoi CDS ei sefydlu yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015. ACLlau sy'n gyfrifol ar y cyd am benderfynu a ddylid cyflwyno cynnig i grŵp o ACLlau baratoi CDS. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau sy'n egluro'r broses ymarferol ar gyfer sefydlu Panel Cynllunio Strategol.

Mae'r Llawlyfr yn dweud y bydd y CDLI Byr yn cael ei roi ar waith adeg hwyrach, hynny yw nid nes bod CDS yn agos at gael ei fabwysiadu (para 10.6). Ni fydd y gofyniad statudol i paratoi CDLI a sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddarau yn newid, nes bod CDSau yn cael eu mabwysiadu ledled Cymru. Nid yw dechrau'r gwaith o baratoi CDS yn effeithio ar y gofyniad statudol i baratoi CDLI, ac ni ddylai atal adolygu a diwygio CDLI. Pan fydd CDS yn cael ei fabwysiadu bydd angen paratoi CDLlau Byr.

Pan fydd CDS yn agos at gael ei ddatblygu, ni fydd paratoi CDLI yn opsiwn – felly, bydd y Llawlyfr yn cael ei aildrafftio i adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol hon ac i egluro'r gwahaniaeth rhwng CDS a CDLI mewn mwy o fanylder. Disgwylir y bydd y sefyllfa hon yn cyrraedd o fewn 1–3 blynedd, felly mae angen cadw'r strwythur presennol tan yr adeg honno. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda ACLlau/Panelau Cynllunio Strategol i sicrhau bod y cynlluniau'n adlewyrchu'r cynnwys priodol.

Cwestiwn 16 – Unrhyw sylwadau eraill. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, manteisiwch ar y cyfle hwn i sôn amdanynt.

Crynodeb o'r materion a godwyd a chrynodeb o ymatebion Llywodraeth Cymru

Gwnaed nifer o sylwadau ychwanegol ar y Llawlyfr, mewn perthynas â newidiadau neu ychwanegiadau. Mae crynodeb ohonynt isod.

Thema	Y Mater a Godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
Adnoddau a'r amserlen ar gyfer paratoi cynllun datblygu	Gofynnodd corff proffesiynol a oedd angen unrhyw adnoddau ychwanegol i ACLlau fodloni gofynion y Llawlyfr. Lleisiodd nifer o ACLlau bryderon ynghylch yr angen i ACLlau baratoi cynllun datblygu o fewn 3.5 mlynedd.	Mae paratoi CDLI yn ofyniad statudol a dylai awdurdodau lleol sicrhau bob ganddynt ddigon o adnoddau ar waith i ategu'r gwaith o wneud hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a leisiwyd gan rai ACLlau ynghylch yr amser o 3.5 mlynedd ar gyfer paratoi

Thema	Y Mater a Godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
		cynlluniau datblygu lleol. Fodd bynnag, ystyrir bod yr amserlen yn realistig ac yn cael ei chyflawni gan ACLlau.
Cyfranogiad rhanddeiliaid	Hoffai nifer o sefydliadau weld rhestr o randdeiliaid penodol yn cael ei chynnwys.	Mae'r Rheoliadau CDLLau yn cyfeirio at 'gyrff ymgynghori cyffredinol' a 'chyrff ymgynghori penodol'. Nid yw'r rhestr hon yn benodol gan mai cyfrifoldeb pob ACLI yw nodi ei randdeiliaid ar sail ei wybodaeth leol ei hun.
Nid yw'r canllawiau'n gynhwysfawr	Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd rhai meysydd (e.e. ynni adnewyddadwy, mwynau, gwastraff ac ati) yn cael eu cynnwys yn benodol yn y Llawlyfr. Gofynnodd un awdurdod pam nad yw'r Llawlyfr yn trafod ystyriaethau penodol cynllunio datblygu mewn parciau cenedlaethol.	Diben y Llawlyfr yw darparu canllawiau ar gyfer ymarferwyr ar baratoi eu cynllun datblygu. Mae'n canolbwyntio ar sut i gyflawni polisi cenedlaethol, yn benodol yr agweddau ar gynllunio sydd wedi bod yn destun nifer o archwiliadau, e.e. darparu tai. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio ochr yn ochr a'r polisiâu cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Canllaw Technegol; ni fwriedir o reidrwydd iddo ailadrodd polisiâu. Mae polisiâu cenedlaethol yn ymdrin yn ddigonol â meysydd fel ynni adnewyddadwy, mwynau gwastraff ac ati, a statws y parciau cenedlaethol.
Fersiynau safonol o ffurflenni sylwadau ac ati	Gwnaeth un ACLI argymell cynnwys ymgynghoriad a ffurflenni sylwadau enghreifftiol, ynghyd â'r drefn ar gyfer rhestr o safleoedd ymgeisiol.	Ystyrir y byddai'n fwy priodol pe bai'r ACLlau yn rhannu gwybodaeth ac yn llunio enghreifftiau ar y cyd. Yn flaenorol roedd y Llawlyfr yn cynnwys ffurflenni a hysbysiadau enghreifftiol, ond roedd ACLlau o'r farn bod y rhain yn rhy anhyblyg. Felly, penderfynwyd peidio â chynnwys unrhyw ffurflenni

Thema	Y Mater a Godwyd	Ymateb Llywodraeth Cymru
		safonol. Anogir ACLlau i weithio gyda'i gilydd a rhannu'r arferion gorau.
Systemau Draenio Cynaliadwy	Roedd nifer o gyfeiriadau at Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau), ac awgrymwyd newidiadau gan un o gyrff y Llywodraeth.	Mae cyfeiriadau at Systemau Draenio Cynaliadwy wedi cael eu hychwanegu lle roedd hynny'n briodol.
Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru	Dywedodd Comisiwn Dylunio Cymru yr hoffent weld cyfeiriad at eu Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau.	Mae cyfeiriad at y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau wedi cael ei ychwanegu ym Mhennod 5, i ategu dyluniadau o ansawdd da sy'n ystyried egwyddorion creu lleoedd.
Cynlluniau Lleoedd	Mae esboniad defnyddiol o Statws a Chwmpas Cynlluniau Lleoedd, ond mae angen rhagor o drafodaeth ynghylch amseru a'r sylw y dylent gael eu llunio ochr yn ochr â'r broses CDLI (neu yn gynnar yn y broses). Dylai'r cyfeiriad at 'gysylltiadau' gael ei nodi a'i gytuno yn y cam llunio Cynllun Cynnwys Cymunedau, yn hytrach na bod yn ôl-ystyriaeth. Fel arfer dylai Cynlluniau Lleoedd gael eu hystyried ar y cyd (a fyddent yn fuddiol ac ati) gan yr ACLlau a'r Cyngor Cymuned, neu grŵp lle nad oes cyngor, fel mater o gwrs.	Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y canllawiau yn glir yn hyn o berth. Bydd Cynlluniau Lleoedd yn cael eu hystyried ymhellach yn y canllawiau Cynllunio eich Cymuned a fydd yn cael eu diweddarau'n hwyrach y eleni.
Y tôn a'r iaith sy'n cael eu defnyddio	Dywedodd un ACLlau fod tôn y Llawlyfr yn fwy addas ar gyfer gorfodi cydymffurfedd na chanllawiau.	Mae statws y Llawlyfr yn cael ei egluro ym Mhennod 1. Rhaid i ACLlau 'ystyried' y Llawlyfr. Ystyrir bod y dôn a ddefnyddir drwyddo draw yn briodol, a gwahaniaethir rhwng gofynion polisi a chanllawiau.

5. Crynodeb o'r diwygiadau

5.1 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos bod cynnwys cyffredinol y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn ddefnyddiol ac yn cael ei gefnogi gan randdeiliaid. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd lle roedd angen rhagor o eglurder a chanllawiau. Dyma'r prif feysydd sydd wedi newid yn y Llawlyfr:

- Mae'r adran ar safleoedd ymgeisiol wedi cael ei hailstrwythuro i ychwanegu rhagor o eglurder ynghylch y gofrestr o safleoedd ymgeisiol a'r broses ar gyfer asesu safleoedd. Mae diagram i grynhoi'r broses wedi cael ei gynnwys hefyd.
- Mae rhagor o ganllawiau wedi cael eu cynnwys ar gymesuredd y wybodaeth am hyfywedd ariannol y gofynnir amdani yn ystod gwahanol gamau'r gwaith o baratoi cynllun.
- Mae cyfeiriadau at bris 20% yn uwch na Gwerth Defnydd Presennol tir wedi cael eu disodli gan gyfeiriad at werth tir ystyrlon sy'n ddigon i annog tirlfeddiannwr i werthu tir i'w ddatblygu, yn enwedig ar gyfer tai.
- Mae diwygiadau i'r bennod ar arfarnu cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael eu gwneud i sicrhau cysondeb â'r fframwaith cyfreithiol.
- Mae rhestrau gwirio wedi cael eu hadrefnu i ddangos blaenoriaeth a lleihau dyblygu.
- Mae diwygiadau wedi cael eu gwneud i'r Llawlyfr mewn perthynas â pharatoi'r taflwybr, y trefniadau monitro cysylltiedig, a chynnwys Adroddiadau Monitro Blyneddol a'r ymgysylltu ynddynt wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad Darparu tai drwy'r system gynllunio sydd wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.
- Rhagor o eglurder ar ardaloedd chwilio mewn CDSau a throthwyon ar gyfer safleoedd.
- Yr amserlen ar gyfer dechrau CDLlau Byr.

5.2 Bydd y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (3ydd Argraffiad) hefyd yn cynnwys newidiadau teipograffyddol a gramadegol bach, i sicrhau eglurder a chywirdeb.

6. Y Camau Nesaf

6.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (3ydd Argraffiad) yn gynnar yn 2020.

Atodiad – rhestr o sefydliadau ac unigolion a gyflwynodd sylwadau

Busnesau

Dŵr Cymru

Y Grid Cenedlaethol

Barratt Homes

Redrow Homes

LRM Planning

Savills

NJL Consulting

Lichfields

Burrows-Hutchinson Ltd

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Dinas Caerdydd

Cyngor Sir Fynwy

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn

Awdurdodau Canolbarth a De Cymru – Cyngor Sir Gâr, Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd

Port Talbot, Cyngor Sir Powys a Chyngor Dinas a Sir Abertawe

Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus

Comisiwn Dylunio Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Dienw

Y Sector Gwirfoddol

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

Age Cymru

Glandŵr Cymru

Yr Ymddiriedolaeth Theatrau

Arall

Cymdeithas y Tirfeddianwyr

Grŵp Ffocws yr Orsedd

Un Llais i Gymru

Dr Christine Hugh-Jones